LLWYDDO'N LLEOL

YN RHOI HWB I GYFLEOEDD GWAITH POBOL IFANC

ENW: Tomos Lloyd

BRO: Lledrod

HWB BUSNES I FFOTOGRAFFYDD IFANC

Er nad yw eto'n ugain oed, mae Tomos Lloyd eisoes yn creu enw iddo'i hun fel ffotograffydd sy'n arbenigo mewn ralïau ceir. Dechreuodd ei ddiddordeb yn y cyfryngau wrth astudio yng Ngholeg Ceredigion, a thrwy gyfleoedd fel Llwyddo'n Lleol mae wedi troi ei angerdd yn fusnes.

"Rydw i wedi bod yn dwlu ar ffotograffiaeth ers blynyddoedd, ac roeddwn i eisiau troi hynny'n ffordd o ennill bywoliaeth," eglura Tomos. "Mae rasio ceir yn fyd cyffrous i'w ddal ar gamera, ac ro'n i'n gwybod y gallwn i gyfuno fy nghariad at ffotograffiaeth gyda'r sîn."

BETH FUES TI'N EI WNEUD GYDA LLWYDDO'N LLEOL?

"Ces i brofiad gwaith gyda Theatr Felinfach, trwy elfen Gyrfaol Llwyddo'n Lleol."

"Roedd gweithio yno yn anhygoel – roeddwn i'n brysur yn tynnu lluniau ar gyfer y Panto, eu golygu, a chreu deunydd hysbysebu. Roedd hefyd yn brofiad gwych i ddysgu mwy am gynhyrchu theatr, rhywbeth hollol newydd i fi."

Fel rhan o'r cynllun, cafodd hefyd gyfle i dreulio chwe wythnos yn yr Egin yng Nghaerfyrddin, lle gwelodd brosesau S4C ar waith. "Fe wnes i sylweddoli pa mor bwysig yw rhwydweithio yn y diwydiant cyfryngau. Roedd cael y cyfleoedd hyn yn fy ardal leol yn wych."

BETH NESAF?

"Mae Llwyddo'n Lleol wedi rhoi cymaint o hwb i mi," meddai. "Diolch i gefnogaeth yr elfen Mentro, dw i'n fwy hyderus ac yn teimlo fy mod i ar y trywydd cywir i lwyddo yn y diwydiant ffotograffiaeth rasio."

Ei nod yw parhau i dyfu ei fusnes a chael mwy o gleientiaid. "Hoffwn ddatblygu fy mhresenoldeb ar-lein a chael mwy o gydweithio â thimau rasio. Mae yna botensial mawr i dyfu, ac rwy'n edrych mlaen yn fawr i weld ble gall hyn fynd."

"Mae dwy elfen Llwyddo'n Lleol wedi fy nghefnogi nid yn unig yn ariannol, ond hefyd gyda chyngor a hyfforddiant busnes. Dwi'n un o'r ffotograffwyr ieuengaf yn y maes, ond bellach dwi'n gallu cystadlu â phobl sydd â blynyddoedd o brofiad."

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government